

BUANEDD Y GWYNT A BUANEDD AER

Mae angen i lywiwr ystyried y gwynt er mwyn cadw ar y trywydd iawn. Yn y gweithgaredd hwn, byddwch chi'n creu anemomedr ac yn archwilio'r cysylltiad rhwng buanedd y gwynt, buanedd ar y tir a buanedd aer.

BYDD ANGEN Y CANLYNOL ARNOCH


- Taflen o bapur A4
- Pren mesur 30cm
- Onglydd a phêl ping pong
- Edefyn neu gortyn tenau
- Siswrn a thâp gludiog
- Stand clamp a bwlyn
- Defnydd gwyntyll neu beiriant sychu gwallt (os ydynt ar gael)
- Dau bin bawd neu bin map
- Cardbord trwchus neu gorcwrdd
- Copi o'r Siart Llywio

BUANEDD Y GWYNT

Cyflymder gwynt yw pa mor gyflym mae aer yn symud dros y tir. Mae modd mesur cyflymder gwynt trwy ddefnyddio offeryn o'r enw anemomedr a'i ddisgrifio trwy ddefnyddio'r raddfa Beaufort.

Buanedd y gwynt	Rhif Beaufort	Disgrifiad
0-1 km/a	0	Tawel
2-5 km/a	1	Aer ysgafn
6-11 km/a	2	Awel ysgafn iawn
12-19 km/a	3	Awel ysgafn
20-29 km/a	4	Awel gymedrol
30-39 km/a	5	Awel ffres
40-50 km/a	6	Awel gref
51-61 km/a	7	Lled dymhestlog
62-74 km/a	8	Tymhestlog
75-87 km/a	9	Tymhestlog iawn
88-101 km/a	10	Stormus
102-117 km/a	11	Stormus iawn
>117 km/a	12	Corwynt

ANEMOMEDR PÊL PING PONG



YR HYN SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD


1. Gwneud anemomedr

- Mae'r anemomedr uchod wedi'i ddarlunio ar sail graddfa (hanner y maint gwirioneddol). Maint llawn deial anemomedr yw 10cm x 9cm. Defnyddiwch bren mesur, papur ac onglydd i wneud fersiwn maint llawn o'r deial.
- Defnyddiwch dâp i gludo pen cortyn i bêl bwrdd tennis a'r pen arall i gefn eich deial.
- Gludwch eich deial i bren mesur 30cm a defnyddiwch glamp i gadw'r pren mesur yn ei le fel bod y cortyn yn fertigol ac yn pwyntio i sero.
- Chwythwch yn ysgafn ar y bêl ping pong i fesur cyflymder gwynt eich anadl. Os oes gennych chi beiriant sychu gwallt a/neu wyntyll, gallwch fesur cyflymder eu gwynt nhw hefyd.

BUANEDD Y GWYNT A BUANEDD AER

BUANEDD AR Y TIR A BUANEDD AER

Buanedd ar y tir yw pa mor gyflym mae awyren yn teithio dros y tir. Buanedd aer yw pa mor gyflym mae awyren yn symud trwy'r aer. Mae'r ddau gyflymder yn gallu amrywio oherwydd y gwynt.




2. Lluniwch eich trywydd a chynlluniwch eich cyrch

- Tynnwch linell ar eich Siart Llywio i gysylltu pwynt A (Ynys Ascension) a phwynt F (Ynysoedd y Falkland). Cyfrifwch yr ongl wedi'i mesur clocwedd o'r gogledd. Yr ongl hon yw'ch **trywydd**. Ysgrifennwch yr ongl yn y tabl.
- Mae'r saeth buanedd aer 15cm o hyd ac mae'n cynrychioli buanedd aer o 750 km/awr. Mae'r saeth lai o ran maint yn 2cm o hyd ac mae'n cynrychioli'r gwynt. Mae wedi'i lluniadu ar sail yr un raddfa. Cyfrifwch y **buanedd gwynt** (km/awr) a'i nodi yn y tabl.
- Torrwch allan y saethau buanedd aer a gwynt a gludwch y Siart Llywio i ddarn o gardbord neu gorfwrdd.
- Defnyddiwch bin bawd i gysylltu'r saeth buanedd aer â'r Siart Llywio trwy roi'r pin trwy bwynt A ar y saeth a'r siart.
- Cysylltwch y saethau gwynt a buanedd aer â'i gilydd trwy roi pin trwy bwynt B ar y ddwy saeth.
- Mae buanedd y gwynt yn cael ei gynrychioli gan y pellter rhwng cynffon saeth y buanedd aer a blaen y saeth wynt. Anelwch y ddwy saeth tuag at y Falkland. **Talwynt** yw hwn. Cyfrifwch eich **buanedd tir** a'i ysgrifennu yn y tabl.
- Os yw'ch cyrch yn cynnwys taith 6300 km, faint o amser fydd y cyrch yn ei gymryd? Nodwch eich **amser hedfan** i'r Falkland yn y tabl.
- Trowch y saeth wynt i'r cyfeiriad dirgroes. **Blaenwynt** yw hwn. Cyfrifwch eich buanedd tir a'ch amser hedfan newydd, a'u cofnodi yn y tabl.
- Pa fath o gyrch sy'n cymryd mwy o amser – cyrch gyda thalwynt neu flaenwynt? Ar gyfer pa gyrch y byddai angen mwy o danwydd?

CYFEIRIAD

Cyfeiriad yw'r ongl o'r gogledd y mae'r awyren yn pwyntio. Nid yw'n pwyntio i'r un cyfeiriad â thrywydd yr awyren bob amser.



HER CROESWYNT

A allwch chi baratoi ar gyfer gwynt gorllewinol a gwynt dwyreiniol?

- Ewch ati i bwyntio'r saeth wynt i gyfeiriad y dwyrain i ddechrau. Mae hyn yn cynrychioli gwynt gorllewinol (yn chwythu o'r gorllewin i'r dwyrain). Cyfrifwch yr ongl wedi'i mesur clocwedd o'r gogledd y mae'n rhaid i'r awyren Vulcan ei dilyn er mwyn parhau i gyrraedd y Falkland. Yr ongl hon yw'ch cyfeiriad.
- Beth yw'r cyfeiriad ar gyfer gwynt dwyreiniol?
- Os yw'ch cyrch yn teithio dros bellter o 6300 km, faint o amser fydd y cyrch yn ei gymryd gyda gwynt gorllewinol? Faint o amser fydd y cyrch yn ei gymryd gyda gwynt dwyreiniol? Pa daith fyddai'n defnyddio mwy o danwydd?